# Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

**2023 dsc 1**

## RHAN 4

DARPARIAETHAU TERFYNOL

### 46 Dehongli cyffredinol

Yn y Ddeddf hon—

ystyr "blwyddyn ariannol" ("*financial year"*) yw—

(a) mewn perthynas â chorff cyhoeddus heblaw Bwrdd Iechyd Lleol neu ymddiriedolaeth GIG, y cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben â 31 Mawrth;

(b) mewn perthynas â Bwrdd Iechyd Lleol, blwyddyn gyfrifyddu o fewn yr ystyr a roddir gan y gorchymyn a wnaed o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p. 42) sy'n sefydlu'r Bwrdd;

(c) mewn perthynas ag ymddiriedolaeth GIG, blwyddyn gyfrifyddu o fewn yr ystyr a roddir gan y gorchymyn a wnaed o dan adran 18 o'r Ddeddf honno sy'n sefydlu'r ymddiriedolaeth;

ystyr "CPG" ("*SPC*") yw'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol a sefydlir gan adran 1;

ystyr "DLlCD 2015" ("*the WFGA 2015*") yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2);

ystyr "y Senedd" ("*the Senedd*") yw Senedd Cymru;

mae i "undeb llafur" yr ystyr a roddir i "trade union" gan adran 1 o Ddeddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 (p. 52) (ac mae i "cydnabyddedig" mewn perthynas ag undeb llafur yr ystyr a roddir i "recognised" gan adran 178(3) o'r Ddeddf honno).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 46 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 48(1)**

**I2** A. 46 mewn grym ar 29.7.2023 gan O.S. 2023/794, **ergl. 2(m)**

## 47 Mân ddiwygiad i DLlCD 2015

Yn adran 9(6) o DLlCD 2015 (cyhoeddi amcanion llesiant diwygiedig corff cyhoeddus), yn lle “(3) neu (4)” rhodder “(4) neu (5)”.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 47 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 48(1)**

**I4** A. 47 mewn grym ar 29.7.2023 gan O.S. 2023/794, **ergl. 2(n)**

## 48 Dod i rym

(1) Daw’r Ddeddf hon i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn; ac eithrio’r adran hon, a ddaw i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

(2) Caiff gorchymyn o dan is-adran (1) bennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol.

(3) Mae pŵer Gweinidogion Cymru i wneud gorchymyn o dan is-adran (1) yn arferadwy drwy offeryn statudol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** A. 48 mewn grym ar 25.5.2023, gweler **a. 48(1)**

## 49 Enw byr

Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** A. 49 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 48(1)**

**I7** A. 49 mewn grym ar 29.7.2023 gan O.S. 2023/794, **ergl. 2(o)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 29/07/2023.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, RHAN 4.